COFNODION CYNGOR BRO LLANGWM A DINMAEL

1. PRESENNOL – Sioned Jones, Gwyndaf Jones, Awel Hughes, Gwynfryn Jones Glennydd Evans (Cadeirydd), Llyr Jones, Carwyn Edwards, Rhian Ellis (Clerc) ,Gwyn Davies
2. YMDDIHEURIADAU – Cynghorydd Peter Lewis
3. DATGAN BUDDIANNAU – DIM
4. COFNODION 04.08.20 – Cynigwyd yn gywir gan Awel Hughes ac eilwyd gan Sioned Jones.
5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

   NEUADD FACH – Wedi edrych I fewn I berchnogaeth y Neuadd Fach, daeth I sylw y Pwyllgor mai y Comisiwn Elusennol sydd yn gwarchod y Neuadd Fach a bod y Les rhwng y Comisiwn a'r Cyngor Bro wedi dod I ben ers 2016. Penderfynnwyd anfod llythyr I'r Comisiwn I ofyn beth yw eu bwriad gyda'r adeilad.

   PARC CHWARAE – Dywedodd Awel ei bod wedi bod mewn cysylltiad gyda cwmni sydd yn gwerthu offer I barc chwarae, a hefyd gyda'r Cynghorydd Peter Lewis ynglyn a sut I symud ymlaen I gael arian I uwchraddio y parciau yn Dinmael a Llangwm.

6. DIRPRWYO PWERAU GWARIO I'R CLERC – Trafodwyd a cytunwyd bod y Clerc yn cael y pwer I dalu biliau I fynny I £500 ond ei bod yn anfon ar ebost I gael cadarnhad gan yr aelodau cyn gweithredu.

7. DERBYN ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL 2018/19 – Trafodwyd yr Adroddiad a nodwyd ei chynwys. Derbynwyd yr adroddiad gan Awel Hughes ac eilwyd gan Gwyndaf Jones. Arwyddwyd gan y Cadeirydd Glennydd Evans.

8. HYFFORDDIANT I'R CLERC – Cytunwyd I'r Clerc fynd ar gyrsiau sydd o fudd I gyflawni y swydd Clerc.

9. Taliadau – DIM

10. UNRHYW FATER ARALL –

a. PONT Y GLYN – Llwybr ar yr hen ffordd yn brysur gau gyda mieri a choed, y Clerc I gysylltu gyda'r Cyngor I ofyn unwaith eto iddynt gadw y ffordd yn glir.

b. LLWYBR CYHOEDDUS – Y gamfa ar y llwybr cyhoeddus wrth Bont Ty Gwyn wedi cau gyda mieri a'r gwrych wedi gor dyfu.

c. PAFIN A5 – Mae'r pafin o Disgarth tuag at Caffi County Cooks yn disgyn ac wedi culhau – y clerc I gysylltu gyda'r Cyngor.

Ch.ARWYDD CAE CHWARAE – Angen arwydd Parc Chwarae yn Dinmael

d. EGLWYS – Awel yn mynd I drio cael hyd I bwy sydd yn berchen yr Eglwys yna y Clerc I anfon llythyr yn datgan bod angen trwsio y to a gwneud y safle yn saff i'r cyhoedd gael mynd I'r fynwent.

dd. CWT HERS – Awel yn mynd I gael hyd I bwy sydd berchen y Cwt Hers.

e. LLythyr wedi dod gan y Cyngor yn nodi bod BT am gael gwared o'r Blwch Ffon yn Llangwm, y clerc I ateb bod y Cynghorwyr yn awyddus I gadw'r blwch gan nad oes signal ffon yn yr ardal.

EITEMAU AR Y AGENDA NESA'

1. Grantiau
2. Comisiwn Elusenol

DYDDIAD CYFARFOD NESA' AR ZOOM– NOS FERCHER TACHWEDD 25ain am 7.30